# CYFARFOD PENDERFYNIADAU ARWEINYDD Y CYNGOR

**DYDD** Iau, 17 Mawrth 2022

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** E. Dole (Aelod o’r Cabinet);

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
B. Hale, Cydgysylltydd Datblygu Economaidd;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Rhith-Gyfarfod: 3.30 yp - 3.45 yp

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 8FED MAWRTH 2022**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 8Fed Mawrth 2022, gan ei fod yn gywir.**

**3. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI**

**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai’r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i’r Ddeddf.**

**4. CEISIADAU GRANTIAU BUSNES**

**Yn dilyn cynnal prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran tryloywder ac atebolrwydd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o roi'r unigolion a'r busnesau a nodir yn yr adroddiad o dan anfantais annheg mewn perthynas â'u cystadleuwyr masnachol.**

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried ceisiadau a dderbyniwyd am gymorth gan Cronfa Dechrau Busnes a Chronfa Tyfu Ac Adferiad Busnes.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Cronfa Dechrau Busnes a Chronfa Tyfu Ac Adferiad Busnes yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol a'r rhai a bennwyd yn yr adroddiad:**

| Cronfa Dechrau Busnes | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod y Cais** | **Yr Ymgeisydd** | **Y Dyfarniad** |
| SUG-401734644 | Ty Newydd Developments | £4,961.00 |
| SUG-402026803 | First Call Community Property Services | £5,000.00 |

| Chronfa Tyfu Ac Adferiad Busnes | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod y Cais** | **Yr Ymgeisydd** | **Y Dyfarniad** |
| GRF-401654102 | Midtec Products Ltd. | £9,977.57 |
| GRF-403734732 | Landsker Archaeology Ltd | £2,230.00 |
| GRF-403226170 | Fresh Start Autos | £2,580.05 |

**AELOD O'R CABINET** **DYDDIAD**